# Cynllun Bro Llanbedr Pont Steffan



Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Bro Llanbedr Pont Steffan
# Cynnwys


Rhagair

Prosiectau Allweddol

1. Cyflwyniad

    1.1 Trosolwg
    1.2 Ynghylch Llanbedr Pont Steffan
    1.3 Data Allweddol ar gyfer Llanbedr Pont Steffan
    1.4 Byd wedi'i Newid gan Covid-19

2. Cynllun Bro

    2.1 Cyd-destun

        2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill
        2.1.2 Cysylltiad â Pholisi
        2.1.3 Themâu Cynllun Bro Ceredigion
        2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant
        2.1.5 Diben a Budd y Cynllun

    2.2 Dull

        2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro
        2.2.2 Gweithredu Cymunedol
        2.2.3 Adborth y Gymuned
        2.2.4 Ymatebion

3. Gweledigaeth

    3.1 Gweledigaeth a Strategaeth
    3.2 Pwyntiau Ffocws
    3.3 Blaenoriaethau

4. Themâu ac Amcanion

    4.1 Llesiant

        4.1.1 Cyflwyniad i Lesiant
        4.1.2 Teithio Llesol
        4.1.3 Trafnidiaeth
        4.1.4 Hygyrchedd
        4.1.5 Camau Gweithredu

    4.2 Creu Lleoedd

        4.2.1 Darpariaeth Gymunedol
        4.2.2 Cyfleoedd Datblygu
        4.2.3 Gwelliannau i'r Stryd Fawr a Gwell Ffryntiadau
        4.2.4 Arwyddion
        4.2.5 Parcio
        4.2.6 Camau Gweithredu

    4.3 Treftadaeth a Diwylliant

        4.3.1 Y Gymraeg
        4.3.2 Diwylliant Hanesyddol a Threftadaeth Bensaernïol
        4.3.3 Camau Gweithredu

    4.4 Yr Economi

        4.4.1 Addysg
        4.4.2 Twristiaeth
        4.4.3 Hyrwyddo
        4.4.4 Camau Gweithredu

    4.5 Yr Amgylchedd

        4.5.1 Yr Amgylchedd Naturiol
        4.5.2 Teithio Cynaliadwy
        4.5.3 Seilwaith Gwyrdd
        4.5.4 Llifogydd
        4.5.5 Camau Gweithredu

# Cynllun Bro Llanbedr Pont Steffan
# Rhagair

Pan gyflwynwyd y cysyniad o Gynlluniau Bro i Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan, fe'i croesawyd yn gynnes fel ffordd newydd ac arloesol o ymdrin â pholisi cynllunio. Byddai'n broses 'o'r gwaelod i fyny', lle gallai'r gymuned ei hun, am y tro cyntaf, gymryd rhan yn y broses o bennu cynllun y teimlent oedd orau i'r dref a'r ardal.

Gwahoddodd y Cyngor Tref gynrychiolwyr o'r holl glybiau, sefydliadau a grwpiau amrywiol i gyfarfodydd cychwynnol, a ffurfiwyd y Pwyllgor Cynllun Bro dan gadeiryddiaeth alluog y Maer ar y pryd, y Cyng. Ann Bowen Morgan (2018-2019). Parhaodd y broses ymgynghori â'r cyhoedd, a amlinellir yn fanwl mewn man arall yn y ddogfen hon, o dan arweiniad gwerthfawr y Maer olynol, y Cyng. Rob Phillips (2019-2020). Rhaid diolch hefyd i Glerc y Dref ar yr adeg hon, Ms. Meryl Thomas, a gadwodd gofnod manwl o'r broses.

Fodd bynnag, wrth i swm yr wybodaeth gynyddu, bu i ddau aelod o'r Pwyllgor Cynllun Bro, yn benodol, ysgwyddo'r gwaith o ddadansoddi'r canfyddiadau a llunio'r Rhag-ddogfen Ddrafft ofynnol. Y ddau aelod oedd Ms. Nicola Doyle a Mrs. Sarah Ward, a dylem fod yn dragwyddol ddiolchgar iddynt am eu gwaith rhagorol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bu i nifer o syniadau da, nad oeddent yn dod o dan gylch gorchwyl cynllunio y Cynllun Bro, gael eu nodi. Er mwyn datblygu'r syniadau hyn, a fyddai o fudd mawr i'r gymuned, cadarnhaodd Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan y byddid yn sefydlu is-bwyllgor newydd o'r enw Caru Llanbed. Rhagwelid y byddai nifer o aelodau'r Pwyllgor Cynllun Bro yn parhau yn eu rolau fel aelodau craidd o Caru Llanbed.

Disgwylid i'r Cynllun Bro Drafft gael ei gyhoeddi ryw ben ddechrau 2020. Ac yna daeth popeth i stop ar amrantiad! O ganlyniad i gyfyngiadau symud COVID, cafodd pob cynnydd pellach ei ohirio am y deunaw mis canlynol. Ymhen hir a hwyr, daeth y Cynllun Bro Drafft i'n llaw ar gyfer ei gwblhau ym mis Medi 2021, ac er mwyn gorffen cam olaf y broses, penderfynodd y Cyngor gyflogi gwasanaethau Mrs. Denise Taylor, sydd wedi cyflawni gwaith rhagorol o ran cael y maen i'r wal parthed y Cynllun Drafft ar gyfer y Dref. Mae ein diolch iddi am ei gwaith caled yn gwbl ddiffuant.

Mae rhai o'r dyheadau yn y Cynllun eisoes wedi'u gwireddu. Mae'r Cyngor Tref yn y broses o sefydlu System Wi-Fi y Dref, mae'r Cyngor Sir wedi dechrau gwelliannau i Stryd y Farchnad, mae Cerddwyr Llambed wedi adnewyddu'r statws 'Croeso i Gerddwyr' i'r Dref, ac efallai'n bwysicaf oll, mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi lansio ei Phrosiect 'Canolfan Tir Glas' eang, a allai gael effaith fawr ar ffyniant y brifysgol a'r dref am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae'n rhaid i ni 'nawr barhau â'r cydweithrediad a grëwyd gan y Cynllun Bro ac ysgogi rôl Grŵp Datblygu Caru Llanbed fel y gall y dref nodedig a hanesyddol hon addasu a newid i syniadau newydd a fydd yn sicrhau ei llesiant a'i ffyniant yn y dyfodol.



Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan



1. Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
2. Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan
3. Clwb rygbi a phêl-droed Llanbedr Pont Steffan
4. Sgwâr Harford




Cofeb Ryfel Llanbedr Pont Steffan

### 1.1 Trosolwg

Mae Cynlluniau Bro yn galluogi cymunedau i ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio i lunio cynllun dan arweiniad y gymuned sy'n darparu manylion ar gyfer yr ardal leol, ac sy'n adlewyrchu ei hynodrwydd ac yn mynd i'r afael â materion penodol i'r gymuned honno.

Mae Cynllun Bro Llanbedr Pont Steffan wedi cael ei ddatblygu gan y Cyngor Tref ar y cyd â'r gymuned leol a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'n cynnig syniadau rhagorol ar gyfer newid cadarnhaol yn Llanbedr Pont Steffan a'r wardiau cyfagos.

Yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, mae Llanbedr Pont Steffan wedi profi newid sylweddol yng nghanol ei thref, yn ei chymunedau lleol ac o ran ei demograffeg. Nod y Cynllun Bro yw adfywio a chynnal apêl y dref, gan ar yr un pryd ymgorffori egwyddorion Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion a darparu cyfeiriad priodol ar gyfer datblygu yn y dyfodol, yn rhan o fframwaith clir.

Yn ogystal â'r Cynllun Bro, sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddyheadau ac amcanion cynllunio cyfreithiol, mae Llanbedr Pont Steffan wrthi'n datblygu 'Gweledigaeth Llanbedr Pont Steffan 2030' ar ffurf dogfen weithio, dogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth a gasglwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad ac a oedd y tu allan i gylch gorchwyl penodol y maes 'cynllunio'.

### 1.2 Ynghylch Llanbedr Pont Steffan

Lleolir Llanbedr Pont Steffan yn ne-ddwyrain Ceredigion, yn Ardal Dwf Ranbarthol Dyffryn Afon Teifi. Mae Llanbedr Pont Steffan nid yn unig yn dref brifysgol bwysig, mae hefyd yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fawr; mae mewn lleoliad gwledig sy'n cael ei amgylchynu â bryniau a dyffrynnoedd mwyn. Mae Llanbedr Pont Steffan hefyd yn borth i Fynyddoedd Cambria, un o lwybrau mwyaf golygfaol Cymru.

Yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cynhanesyddol, credir bod Llanbedr Pont Steffan yn brifddinas lwythol yn ystod yr Oes Haearn a hyd at gyfnod y Rhufeiniaid. Adeiladwyd y bont gyntaf ar draws Afon Teifi yn y 12fed ganrif, a chodwyd castell tomen a beili ar dir uwch. Mae twmpath pridd, a fu unwaith yn rhan o'r castell, yn dal i fodoli heddiw ar dir Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Bu i siarteri o'r Oesoedd Canol sefydlu Llanbedr Pont Steffan yn dref farchnad bwysig, tref a oedd yn darparu canolfan hanfodol i ffermydd a phentrefi'r rhanbarth ar gyfer cyfnewid nwyddau a gwasanaethau.

Heddiw, meysydd cyflogaeth amlycaf Llanbedr Pont Steffan yw addysg, cyfanwerthu, manwerthu a thrwsio cerbydau.

Mae Llanbedr Pont Steffan yn parhau i fod yn dref farchnad bwysig, gyda llawer o fusnesau lleol yn darparu gwasanaethau i'r diwydiant ffermio a'r gymuned amaethyddol ehangach.

Mae cysylltiadau cryf Llanbedr Pont Steffan â'r diwydiannau bwyd a gwlân, yn benodol, yn cael eu hyrwyddo gan Ganolfan Cwiltiau Cymru a PCYDDS.

Mae Llanbedr Pont Steffan yn gymuned Gymraeg ei hiaith a chanddi ei heisteddfod ei hun a'i phapur newydd Cymraeg, Clonc – elfennau sy'n rhan allweddol o hunaniaeth ddiwylliannol Llanbedr Pont Steffan.

A hithau'n dref brifysgol bwysig, cafodd PCYDDS ei Siarter Frenhinol yn 1828 ac, ar ôl Prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt, siarter Llanbedr Pont Steffan yw'r hynaf yng Nghymru a Lloegr. Yn 2011, daeth EUB Tywysog Cymru yn Noddwr Brenhinol iddi.


Roedd 2022 yn nodi deucanmlwyddiant addysg uwch yng Nghymru, carreg filltir a ddathlwyd gan PCYDDS, yn ogystal â'r rôl a chwaraeodd Coleg Dewi Sant yn ei hanes.

Yn rhan o 'Weledigaeth newydd ar gyfer Llanbedr Pont Steffan', aeth PCYDDS ati'n ddiweddar i lansio ei bwriadau i greu academi bwyd a menter wledig newydd. Lleolir y fenter, a adwaenir yn 'Canolfan Tir Glas', ar gampws y brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan, a bydd yn ysgogi gweithgarwch economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Bydd hyn wedyn yn rhoi bywyd ac egni newydd i'r dref a'r ardal gyfagos.

Allwedd:

- Ward gymunedol Llanbedr Pont Steffan
- Wardiau cymunedol cyfagos yng Ngheredigion
- Wardiau cymunedol cyfagos yn Sir Gaerfyrddin
- Ffin sirol a rennir
- Priffordd

(Ffiniau wardiau cymunedol 2022)



Mae'r dref wedi ei sefydlu ei hun yn Dref Drawsnewid sy'n ceisio ymateb i heriau olew brig ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Nod y mudiad hwn yw helpu Llanbedr Pont Steffan a'r cyffiniau i fagu cydnerthedd yn wyneb prinder olew, a dod yn lle mwy cynaliadwy i fyw ynddo. Dynodwyd Llanbedr Pont Steffan yn swyddogol eisoes yn dref 'Ddiblastig'.

Mae Ymddiriedolaeth Datblygu Trawsnewid Llambed yn sefydliad nid-er-elw sydd wedi helpu i ddatblygu a hyrwyddo sawl menter yn y dref. Mae'r Lampeter Grapevine, sef cylchlythyr misol poblogaidd a ddosberthir yn eang yn rhanbarth Llanbedr Pont Steffan, wedi bod yn gyfrwng i hyrwyddo digwyddiadau lleol, busnesau ac adnoddau, ac i rannu barn ar faterion lleol ac ehangach. Mae wedi bod yn arf rhwydweithio gwerthfawr. Mae Marchnad Llanbedr Pont Steffan, a gynhelir ddwywaith y mis ar dir y brifysgol, yn gwerthu bwyd a chrefftau a gynhyrchir yn lleol, gan leihau'r angen i'r gymuned deithio ymhellach. Mae wedi gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Paramaethu Llanbedr Pont Steffan i sefydlu cyfres o nosweithiau ffilm a Llyfrgell Hadau leol, ac mae wedi cefnogi Incredible Edible, mudiad y mae ei leiniau tyfu yn ymddangos mewn mannau cyhoeddus o amgylch Llanbedr Pont Steffan.

### 1.3 Data Allweddol ar gyfer Llanbedr Pont Steffan

Er mwyn gosod y cefndir i'r dref, dylid cydnabod ei phwysigrwydd rhanbarthol. Mae gwybodaeth bellach ac ystadegau allweddol yn cynnwys y canlynol:

Yn ôl cyfrifiad 2021, mae gan Lanbedr Pont Steffan boblogaeth o 2,504 o gymharu â 5,896 yng nghyfrifiad 2011.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn rancio pob ardal fach yng Nghymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). Mae Llanbedr Pont Steffan yn cael ei chwmpasu gan ddwy Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAau), a hynny yn safleoedd 1,360 ac 843. Tra bo un ardal ymysg y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru, mae'r llall ymysg y 30 i 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig (StatsCymru).

Mae Llanbedr Pont Steffan, lle mae 55% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (2021, SYG), wedi gweld cynnydd o 8.1% yn y rhuglder yn y Gymraeg ers cyfrifiad 2011.

### 1.4 Byd wedi'i Newid gan COVID-19


Mae Covid-19 nid yn unig wedi amharu ar ein bywydau bob dydd ac achosi llawer o ansicrwydd, ond mae hefyd wedi rhoi cyfle i ni ailosod y cloc a meddwl eto am y lleoedd yr ydym am fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Rydym wedi dysgu gwerth ysbryd cymunedol wrth i deuluoedd, ffrindiau a chymdogion ffurfio 'swigod cymorth' i estyn allan y naill at y llall a chefnogi ein gilydd. Mae yna gydnabyddiaeth hefyd o'r rôl hollbwysig y mae grwpiau gwirfoddol, gweithwyr allweddol a busnesau a siopau teuluol lleol yn ei chwarae wrth iddynt barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ystod cyfnod anodd.

Arweiniodd y pandemig hefyd at ansefydlogrwydd economaidd ac ariannol, ynghyd â newidiadau yn y farchnad lafur; bu i lawer o unigolion ddod i weithio gartref fwyfwy, a hynny'n aml ar eu pen eu hunain, gan feithrin ymwybyddiaeth o bwysigrwydd llesiant meddyliol a chorfforol.

Mae angen i ni ailadeiladu cymdeithas wyrddach, lanach lle mae datgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol yn ganolog iddi, gan barchu ein hamgylchedd a rhoi lleoedd da i bobl fyw ynddynt, lleoedd sy'n hygyrch ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yr un mor wir am Lanbedr Pont Steffan ag y mae ar gyfer Cymru gyfan.


Mae'r data ar y dudalen ganlynol yn seiliedig yn bennaf ar yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is gyferbyn.




# Cynllun Bro Llanbedr Pont Steffan
# 1. Cyflwyniad

## Poblogaeth


Cymru | Ceredigion | Llanbedr Pont Steffan




## Deiliadaeth Aelwydydd yn Llanbedr Pont Steffan





## % Dadansoddiad o'r Galwedigaethau yn Llanbedr Pont Steffan





## % Poblogaeth a Ddynododd Cymraeg yn Unig


Cymru | Ceredigion | Llanbedr Pont Steffan





## Y Gymraeg yn Llanbedr Pont Steffan





## % Grwpiau Oedran Poblogaeth yn Llanbedr Pont Steffan





## Ceir/Faniau fesul Aelwyd yn Llanbedr Pont Steffan




## % Gweithgarwch Economaidd yn Llanbedr Pont Steffan




## Ethnigrwydd yn Llanbedr Pont Steffan




Ffynhonnell y data: NOMIS, Cymru, 2021



Sesiwn ymgysylltu ar gyfer Strategaeth Adfywio
Llanbedr Pont Steffan, Chwefror 2023

### 2.1 Y Cyd-destun


Mae Cynlluniau Bro yn ategu cynlluniau datblygu statudol sydd mewn bod ac yn mynd i'r afael â materion ar raddfa gymunedol, megis cynllunio cyfleusterau cymunedol a mannau agored. Maent yn gweithredu fel mecanwaith i gymunedau ymgysylltu mewn modd creadigol â'r broses gynllunio.

#### 2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill

Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynllun ar gyfer eu hardal a elwir yn Gynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae hwn yn nodi amcanion yr awdurdod mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yn ei ardal, ynghyd â'i bolisïau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny.

Ym mis Ebrill 2013, mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn ffurfiol. O ganlyniad, rhaid i ddatblygiad arfaethedig gael ei ystyried yn unol â'r polisïau a geir yn y cynllun hwn. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cynlluniau Bro, sy'n ychwanegu manylion at y broses o gynllunio datblygu statudol, ac yn ymhelaethu ymhellach ar y cynnwys. Er bod Cynlluniau Bro yn ddogfennau anstatudol a all ddarparu cymorth i gyflawni'r gwaith, cânt eu paratoi i'r diben o ddod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau hyn a arweinir gan y gymuned yn helpu i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol.Caiff Cynlluniau Bro eu llywio gan bolisi, ond maent hefyd yn cynnig cyfle i lywio a llunio strategaethau lleol a chenedlaethol tymor hwy.




Cyd-destun y Cynllun Bro o fewn polisi, deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio

### 2.1.2 Cysylltiad â Pholisi

Mae pob prosiect a amlinellir yn y Cynllun Bro yn bodloni'r ddyletswydd a bennir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef cyflawni'r 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy' trwy'r pum ffordd o weithio: Cydweithredu, Integreiddio, Cymryd rhan, Meddwl yn yr hirdymor ac Atal.

Mae Llanbedr Pont Steffan o fewn Ardal Dwf Ranbarthol Afon Teifi, fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040, sy'n golygu y dylai gadw a gwella'r gwasanaethau masnachol a chyhoeddus sy'n gwneud yr anheddiad yn ganolbwynt i'r ardal. Mae pob un o'r prosiectau a nodir yn y Cynllun Bro yn cefnogi nodau Ardal Dwf Ranbarthol Cymru'r Dyfodol.

Mae pum egwyddor allweddol Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 wedi cael eu hystyried yn rhan o'r broses ar gyfer llunio prosiectau Cynllun Bro. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach.
- Creu a chynnal cymunedau.
- Hyrwyddo gwarchodaeth amgylcheddol a chyfyngu ar effaith amgylcheddol.



Campws PCYDDS

### 2.1.3 Themâu Cynllun Bro

Mae yna bum thema Cynllun Bro graidd sy'n darparu strwythur ac yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau a chamau gweithredu fod yn gyson â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Tra bo cynnwys y Cynllun Bro hwn a'r set o is-themâu yn unigryw i Llanbedr Pont Steffan, mae'r categorïau'n gyffredin ledled pob tref yng Ngheredigion. Mae pob un o'r themâu'n cael eu llywio gan ddeddfwriaeth, polisi, a dyheadau cymunedol. Mae'r disgrifyddion cefndir canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer strwythuro'r Cynllun Bro:

Llesiant:

Meddwl am effaith hirdymor penderfyniadau, a darparu cymorth i'r gymuned leol atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Nod y camau gweithredu hyn yw lleihau'r gwahaniaethau o fewn cymunedau a chreu amodau sy'n galluogi pobl i fyw a gweithio mewn lleoedd diogel, bywiog. Mae'r thema'n cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Creu Lleoedd:

Mabwysiadu agwedd gyfannol at gynllunio a dylunio gofodau. Mae creu lleoedd yn tynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Dylai hyn arwain at ddatblygu gofodau nodedig a bywiog sy'n cryfhau'r berthynas rhwng pobl a lleoedd. Mae'r thema'n ymateb i Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 ac mae'n ymgorffori gwerthoedd Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Treftadaeth a Diwylliant:

Diogelu'r dreftadaeth ranbarthol unigryw a'r asedau diwylliannol cyfoethog sy'n bresennol yn y dref. Nod y camau hyn yw datblygu'r cymeriad hanesyddol sy'n denu pobl i ymweld â'r ardal ac i fyw ynddi. Mae'r thema'n cymhwyso egwyddorion cadwraeth ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth o werth treftadaeth llawer o nodweddion hanesyddol lleol – rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol Ceredigion. Mae'r thema'n cyd-fynd â'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth.

Yr Economi:

Datblygu rhaglen buddsoddiad mewn adfywio dargededig sy'n cynnal economi ffyniannus gynaliadwy. Mae hyn yn mynd i'r afael â heriau allweddol i gyflawni gweledigaeth o economi sy'n darparu dyfodol cynaliadwy ar gyfer pawb sy'n dewis byw a gweithio yn y gymuned leol. Mae'r thema'n gysylltiedig â pholisi a chymorth adfywio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella canol trefi. Mae'r agwedd hon ar y Cynllun Bro yn cael ei llywio gan Strategaeth Adfywio Llanbedr Pont Steffan (2023), ynghyd â chonsensws cyffredinol ynghylch prosiectau ac ymyraethau allweddol sydd wedi llywio cymeradwyaeth y Cyngor Tref.

Yr Amgylchedd:

Creu cymunedau gwyrddach, cynaliadwy ac iddynt gysylltiadau da, sy'n cymryd camau i leihau allyriadau carbon a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r amgylchedd lleol a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r thema'n hyrwyddo amcanion sirol a chenedlaethol, yn ogystal â thargedau allyriadau carbon i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Caiff y thema ei llywio gan y cynllun seilwaith Gwyrdd a Glas ar gyfer y dref a chyfleoedd allweddol yr hoffai'r Cyngor Tref eu symud yn eu blaen a'u blaenoriaethu.



Capel Llanbedr Pont Steffan

# Themâu Cyffredin Ceredigion

## Llesiant

- Hygyrchedd
- Teithio llesol
- Cymuned
- Llwybrau beicio
- Gofal iechyd
- Iechyd a llesiant
- Hamdden
- Cyfleusterau cyhoeddus
- Hamdden
- Chwaraeon
- Twristiaeth
- Trafnidiaeth
- Llwybrau cerdded

## Creu Lleoedd

- Llety
- Amgylchedd adeiledig
- Gerddi cymunedol
- Darpariaeth gymunedol
- Cyfleoedd datblygu
- Mannau gwyrdd
- Gwelliannau i’r stryd fawr
- Gwell ffryntiadau
- Parcio
- Cerddwyr
- Hyrwyddo a rheoli
- Arwyddion
- Cymeriad y dref
- Sgwâr y dref

## Treftadaeth a Diwylliant

- Cymeriad pensaernïol
- Treftadaeth bensaernïol
- Cadwraeth
- Diwylliant
- Treftadaeth
- Cyd-destun hanesyddol
- Diwylliant hanesyddol
- Y Gymraeg

## Yr Economi

- Atyniadau
- Cyrchfan
- Yr economi
- Addysg
- Tirnodau
- Busnesau lleol
- Marchnata
- Hyrwyddo
- Twristiaeth

## Yr Amgylchedd

- Mynediad
- Newid yn yr hinsawdd
- Llifogydd
- Seilwaith gwyrdd
- Tirwedd
- Yr amgylchedd morol
- Yr amgylchedd naturiol
- Cynaliadwyedd
- Teithio cynaliadwy

Themâu cyffredin ledled Cynlluniau Bro Ceredigion

### 2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant

Cymru oedd y wlad gyntaf i ddeddfu Llesiant yn y gyfraith ac mae'r ddeddfwriaeth hon yn treiddio i lawr i bob prosiect a chynllun yng Nghymru. Mae'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel y'u hamlinellir ar lefel leol yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023, wedi llywio datblygiad y Cynllun Bro hwn.

Er mwyn i unrhyw dref ei chynnal ei hun, rhaid i Gymru lewyrchus fod â chryn arwyddocâd. Mae ffyniant yn llywio'r economi, yn sbarduno, ac yn annog twf.

Mae'r ffactorau sy'n bwysig i lesiant meddyliol, corfforol a chymdeithasol preswylwyr Llanbedr Pont Steffan ac ymwelwyr â'r dref yn cynnwys:

- Bod yn iach yn feddyliol ac yn gorfforol.
- Diogelwch a diogeledd personol.
- Cyflogaeth a sicrwydd ariannol.
- Y gallu i gysylltu ag eraill.
- Deiet iach; y gallu i gael bwyd lleol o safon dda.
- Parch a hunan-barch.

Mae'r ffactorau sy'n hybu llesiant cymunedol yn cynnwys:


- Cymuned fywiog, ofalgar.
- Cymuned ac iddi werthoedd a rennir.
- Lle y gellir bod yn falch o fyw a gweithio ynddo.
- Y gallu i sicrhau tai fforddiadwy o safon dda.
- Trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a lle bo rhannau eraill o'r wlad yn hygyrch.
- Cysylltu ag eraill mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol.
- Y gallu i gael gwasanaethau iechyd – ysbyty, meddyg teulu, deintydd, optegydd a fferyllfa.
- Y gallu i fynd i siopau a bwytai lleol.
- Y gallu i fod ym myd natur ac mewn mannau gwyrdd agored.
- Cefnogi'r henoed, a phobl agored i niwed a difreintiedig mewn cymdeithas.
- Addysg o safon dda.
- Mynediad i gyfleusterau hamdden.

### 2.1.5 Diben a Budd y Cynllun

Bellach, mae gan gymunedau Cymru fwy o gyfle nag erioed o'r blaen i lunio dyfodol y lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae gan y Cynllun Bro y potensial i weithredu fel Grant Cynhyrchu Cynaliadwy dan arweiniad y gymuned ar gyfer yr awdurdod lleol, ac i gynorthwyo gyda phenderfyniadau a chynlluniau mewn perthynas â defnyddio a datblygu tir, a newidiadau a gwelliannau i wasanaethau lleol. Gall y ddogfen gynorthwyo i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol trwy nodi uchelgeisiau'r gymuned leol a denu cyllid i'w gwireddu.



Cwrt PCYDDS




Y saith nod llesiant a nodir gan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'

## 2.2 Dull


Mae egwyddor allweddol y Cynllun Bro yn rhoi'r gymuned wrth wraidd y broses gynllunio. Er mwyn hwyluso ymglymiad cymunedol, sefydlodd Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan grŵp llywio i oruchwylio proses y Cynllun Bro. Roedd y grŵp llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o'r grwpiau rhanddeiliaid allweddol canlynol, a ddaeth ynghyd i rannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth am y maes, i awgrymu themâu a syniadau i'w cynnwys yn y Cynllun Bro, ac i hwyluso sesiynau rhanddeiliaid.


- Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan.
- Caffi Artisans (Nicola Doyle).
- CMGC.
- Cyngor Sir Ceredigion.
- Y Siambr Fasnach.
- Merched Medrus – Merched mewn Mentrau. Gwledig (WIRE).
- Hollol Leol (Totally Locally).
- Trawsnewid Llambed.
- PCYDDS.
- Y Stiwdio Brint (Sarah Ward).

Cylch gorchwyl y grŵp llywio oedd "datblygu Cynllun Bro ar gyfer Llanbedr Pont Steffan i gefnogi ac arwain datblygiad y dref, datblygiad a fydd yn cynnwys yr amgylchedd adeiledig, gwasanaethau, cyfleusterau, busnesau a'r gymuned".

Allwedd:

- Afon Dulas
- 1880au
- 1930au
- 1980au
- 2023
- Ffin yr anheddiad




Twf anheddiad Llanbedr Pont Steffan

Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a arweiniodd y broses o lunio'r Cynllun Bro hwn. Fodd bynnag, mae ei gynnwys yn seiliedig ar farn a dyheadau'r gymuned. Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan hefyd yw'r ymgynghorai statudol cyfredol yn y broses gynllunio, a bydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am drefnu'r broses o graffu ar fesurau effaith y Cynllun Bro mewn canlyniadau cynllunio. Bydd hefyd yn herio'r cydsyniad cynllunio lle ymddengys nad oes ystyriaeth ddyledus wedi cael ei rhoi.

Yn ogystal â Chyngor Tref Llanbedr Pont Steffan, mae Gweithgor Caru Llanbed 2030 yn anelu at fwrw ymlaen â gwelliannau cynllunio penodol i'r dref, fel y nodir yn y ddogfen hon. Nod Caru Llanbed yw gweithredu prosiectau nad ydynt yn ymwneud â chynllunio ac sy'n codi o broses y Cynllun Bro.

### 2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro

Lleolir tref Llanbedr Pont Steffan o fewn un ward etholiadol, sef Ward Llanbedr Pont Steffan, sy'n cwmpasu'r dref a'r cyffiniau. Gwasanaethir y dref hefyd gan Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan. Mae ardal y Cyngor Tref yn adlewyrchu ffin y ward.

### 2.2.2 Gweithredu Cymunedol

Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgynghori ar y cyd â phreswylwyr lleol ac ymwelwyr â'r dref. Cyfrannodd pawb at y Cynllun Bro a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cynllun Bro hefyd wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr arbenigol a swyddogion arbenigol o'r awdurdod lleol.

Roedd y grwpiau canlynol yn rhan o'r broses ymgynghori, ond nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr:

- Caffi Artisans.
- Ysgol Bro Pedr.
- CMGC.
- Cyngor Sir Ceredigion.
- Y Siambr Fasnach.
- Côr Corisma.
- Côr Cwm-ann.
- Y Geidiaid.
- Carnifal Llambed.
- Canolfan Deuluol Llanbedr Pont Steffan.
- Gŵyl Fwyd Llanbed.
- Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan.
- Merched Medrus.
- Merched y Wawr.
- Marchnad y Bobl.
- Y Sgowtiaid Pedr.
- Hollol Leol (Totally Locally).
- Trawsnewid Llambed.
- PCYDDS.
- Yr Urdd.
- Y Stiwdio Brint.

### 2.2.3 Adborth y Gymuned

Gwahoddwyd ac anogwyd y cyhoedd ac ymwelwyr, fel ei gilydd, i gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn y ffyrdd a ganlyn:

- Cyfarfod ymgynghori cyhoeddus – cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori cyhoeddus yn Neuadd Victoria.
- Holiaduron – roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau am iechyd, addysg, yr hyn yr oedd pobl yn rhoi'r gwerth mwyaf arno yn y dref, a'r hyn y byddent yn ei newid. Dosbarthwyd yr holiaduron ledled y lleoliadau lleol.
- Hwyluso adborth – aeth 'grŵp gorchwyl a gorffen bwrdd gwyn' ati i hwyluso adborth gan grwpiau cymunedol lleol ac mewn digwyddiadau lleol megis diwrnod graddio PCYDDS, Gŵyl Fwyd Llanbed, a marchnad y bobl.
- Y cyfryngau cymdeithasol – sefydlodd Caru Llanbed grŵp Facebook i hwyluso trafodaeth. Cafodd cwestiynau wythnosol eu postio ar-lein i ofyn am farn pobl ar amrywiaeth o bynciau.
- Arolwg ar-lein – lluniodd y Siambr Fasnach arolwg ar-lein i ofyn am farn busnesau lleol.

### 2.2.4 Ymatebion

Some of the comments and feedback from community consultation include:

Dim llawer yma i fyfyrwyr ei wneud. Yn gorfod mynd ar y bws i drefi eraill i wneud pethau. Dim bywyd nos.

Diffyg dewisiadau siopa.

Mae yna olygfeydd godidog yn yr ardal. Rwy'n dychwelyd bob blwyddyn.

Mae yna ymdeimlad gwirioneddol fod cynaliadwyedd yn nod buddiol.

Mae pawb yn glòs a chyfeillgar iawn. Bob amser yn adnabod pobl yn y dref.

Golygfeydd da, croesawgar iawn, a'r cyfleusterau'n dda.

Byddai cael lle i wersyllwyr yn dda ar gyfer aros dros nos.

Diffyg cysylltiad rhwng y dref a'r brifysgol.

Eiddo gwag, diffyg pethau i'w gwneud.


Mae gan Lanbedr Pont Steffan ymdeimlad o le nas gwelir yn aml y dyddiau hyn – mae'n dref gyfforddus yn ei chroen ei hun, ond yn un sy'n hapus i groesawu newid cadarnhaol.

Croeso cynnes bob amser, ymdeimlad o gymuned ac agosatrwydd.

Wrth fy modd â'r blodau a chariad pobl at ei gilydd, ymwelwyr a myfyrwyr.




Clwb rygbi a phêl-droed Llanbedr Pont Steffan


Cyrchfan
Economi ac Addysg
Byw a Gweithio
Cymuned
Cysylltedd
Twristiaeth
Iechyd a Llesiant
Gwelliannau i'r Stryd Fawr

### 3.1 Gweledigaeth a Strategaeth

Tri phrif nod ein Cynllun Bro yw:

- Cynyddu cyfleoedd twristiaeth yn y dref,
- Parhau i fod yn wasanaeth o bwys sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar gyfer ymwelwyr a busnesau lleol, a;
- Pharhau i wasanaethu'r cymunedau sy'n ystyried Llanbedr Pont Steffan yn brif dref iddynt.

Mae'r strategaeth ganlynol yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad y dref yn y dyfodol, gan newid y dull cyfunol cyfredol o gynllunio tref i fod yn gynllun cydlynol, hollgynhwysol wedi'i ystyried yn dda ar gyfer tref Llanbedr Pont Steffan yn ei chyfanrwydd a'r ardaloedd cyfagos.

### 3.2 Pwyntiau Ffocws

Mae'r strategaeth ar gyfer Llanbedr Pont Steffan wedi'i hanelu at ddenu bywiogrwydd i'r ardal, a hynny trwy wneud defnydd llawn o'i hasedau cyfredol i sicrhau bod ein tref yn ddeniadol a'i hadnoddau o fewn cyrraedd ymwelwyr a phreswylwyr fel ei gilydd.

Gwna'r dref ddefnydd da o'i hadeiladau amlddefnydd i gynnal digwyddiadau; fodd bynnag, ychydig iawn o atyniadau twristiaeth penodol sydd yn y dref ei hun.

Mae nifer o adeiladau a nodweddion yn dirnodau dynodi llwybrau yn y dref ac felly mae'n hanfodol cynnal eu statws a'u gwelededd:

- PCYDDS, gan gynnwys ei phafiliwn, olion y castell mwnt a beili, a'r bêl rygbi goffaol, sydd oll wedi'u lleoli ar ei thiroedd.
- Y gofeb ryfel.
- Sgwâr Harford.
- Parc St Germain-sur-Moine.
- Gwesty'r Llew Du.
- Siop fanwerthu Gwilym Price, Stryd y Coleg.
- Pont Afon Teifi.
- Hen Neuadd y Dref.
- Amgueddfa Llanbedr Pont Steffan.
- Parc yr Orsedd/Cerrig yr Orsedd.
- Parciau Maesyfelin a Maesyderi.
- Afonydd Teifi a Dulas.
- Coedwig Gymunedol Long Wood.

### 3.3 Blaenoriaethau

Er mwyn strwythuro'r Cynllun Bro, datblygwyd nifer o themâu allweddol yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, ac roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Lle gwych i fyw a gweithio ynddo;
- Llambed Gwyrddach;
- Cyrchfan Llanbedr Pont Steffan.

Nodir nifer o flaenoriaethau allweddol yn y cynllun:

**1. Gwella arlwy hamdden Llanbedr Pont Steffan**

Ar hyn o bryd mae gan y dref dri pharc chwarae i blant, ond byddai mannau chwarae ychwanegol yn fuddiol. Byddai cyfleusterau awyr agored, megis trac pwmpio neu barc sglefrfyrddio, ynghyd ag atyniadau dan do, megis man chwarae meddal neu ale fowlio, yn gwella opsiynau hamdden i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

**2. Plannu coed a mannau cymunedol**

Byddai mynd ati i blannu coed mawr byr eu gwreiddiau yn strategol mewn mannau addas yn ychwanegu cysgod, gwyrddni a mannau ymgynnull i'r gymuned.

**3. Gwaith Celf a Threftadaeth Cymunedol**

Gallai ychwanegu gwaith celf cymunedol neu arddangosfa gerfluniau yn Sgwâr Harford greu canolbwynt nodedig, gan ddathlu treftadaeth grefftau'r dref. Byddai cerfluniau pwrpasol, gwaith celf, neu goed nodedig mewn lleoliadau allweddol yn gwella cymeriad y dref, gan wneud yr ardaloedd gweladwy hyn yn fwy deniadol a chofiadwy.

**4. Meinciau stryd a mannau hamdden naturiol**

Byddai gosod meinciau stryd yn drefnus a rheolaidd yn yr ardaloedd allweddol yn annog pobl i gerdded i'r dref o'r cyrion. Yn ogystal, byddai datblygu adnoddau naturiol megis y coetir a'r afon i fod yn safleoedd hamdden dan reolaeth dda yn cyfrannu at gynllun ehangach i ddenu mwy o ymwelwyr.

**5. Cynnal a chadw tirnodau**

Er mwyn hyrwyddo canol y dref ymhellach, byddai gwella golwg tirnodau amlwg yn fuddiol.



1



2

1. PCYDDS
2. Siop anrhegion ar Stryd y Bont

Cynllun cydlynol, hollgynhwysol ar gyfer Llanbedr Pont Steffan gyfan sydd wedi bod yn destun ystyriaeth dda.

Nod y strategaeth ar gyfer tref Llanbedr Pont Steffan yw denu bywiogrwydd i'r ardal, a hynny trwy wneud defnydd llawn o'i hasedau cyfredol.



Pont reilffordd wedi'i datgymalu ac Afon Teifi

## Themâu ar gyfer Llanbedr Pont Steffan

### Llesiant

- Hygyrchedd
- Teithio llesol
- Trafnidiaeth
- Llwybrau beicio
- Cymuned
- Llwybrau cerdded

### Creu Lleoedd

- Darpariaeth gymunedol
- Cyfleoedd datblygu
- Gwelliannau i'r stryd fawr
- Gwell ffryntiadau
- Parcio
- Arwyddion
- Cymeriad y dref

### Treftdaeth a Diwylliant

- Treftadaeth bensaernïol
- Diwylliant
- Y Gymraeg
- Cymeriad pensaernïol

### Yr Economi

- Addysg
- Hyrwyddo
- Twristiaeth

### Yr Amgylchedd

- Llifogydd
- Seilwaith gwyrdd
- Yr amgylchedd naturiol
- Teithio cynaliadwy

---

Pynciau sy'n dod i'r amlwg o dan eu themâu priodol yng Nghynllun Bro Llanbedr Pont Steffan



# Llesiant

**4.1.1 Cyflwyniad i Lesiant**

Mae llesiant cymunedau Llanbedr Pont Steffan a'r pentrefi cyfagos o'r pwys mwyaf, ac mae ymhlyg yn yr holl gynigion datblygu a amlinellir yn y cynllun hwn. Bydd cysylltu cymunedau, gofodau a syniadau trwy ddatblygiad perthnasol a phwrpasol yn gwneud yn siŵr y gellir sicrhau cynnydd yn llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae Cynllun Bro Llanbedr Pont Steffan yn cael ei ategu gan, ac yn adlewyrchu, gwerthoedd a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023 – sy'n golygu eu bod yn gweithio gyda'i gilydd mewn modd cefnogol a modd a gefnogir i gyflawni'r nodau Llesiant cenedlaethol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Llanbedr Pont Steffan.

**4.1.2 Teithio Llesol**

Un o amcanion allweddol y strategaeth yw cynyddu gallu cerddwyr i dreiddio i ganol y dref, hyrwyddo teithio llesol, blaenoriaethu hygyrchedd i bobl ag anableddau, a gwella'r ddarpariaeth a'r safon yn achos trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau beicio yn yr ardal. Mae hwyluso hygyrchedd Llanbedr Pont Steffan i'r cymunedau cyfagos a'r aneddiadau cysylltiedig hefyd yn flaenoriaeth gan fod llawer o'r cymunedau wedi colli eu gwasanaethau lleol, megis banciau, siopau a swyddfeydd post.

Yn yr un modd, mae rhwydwaith da o lwybrau beicio a llwybrau marchogaeth rhwng canol y dref a'r pentrefi cyfagos – megis llwybr Llangybi ar hyd yr hen reilffordd – ac sy'n estyn tuag at allan i rwydweithiau beicio cenedlaethol mwy, yn hanfodol i gadw'r dref yn hygyrch ar raddfa fwy.

Hefyd byddai sicrhau bod y llwybrau beicio'n treiddio i ganol y dref ei hun, a hynny trwy lwybrau eilaidd a rhodfeydd sy'n cysylltu â'r prif strydoedd a'r palmentydd, yn golygu bod ymweld yn hawdd ac yn ddeniadol i feicwyr sy'n pasio trwy'r cyffiniau.

Mae cyfleoedd pellach yn bodoli i estyn y cyfleoedd cerdded i'r gogledd o Lanbedr Pont Steffan er mwyn gwella'r hygyrchedd ar gyfer dau safle tai posibl. Bydd sicrhau gallu cerddwyr i gerdded, ynghyd â llwybrau teithio llesol, i aneddiadau cyfagos yn creu grŵp o aneddiadau cynaliadwy, tra bydd llwybrau o fewn y dref ei hun yn cyfrannu at agendâu cynllunio cyfredol, megis y 'gymdogaeth 20 munud' a'r manteision cymdeithasol ac amgylcheddol cysylltiedig a ddaw yn sgil hyn. Fodd bynnag, i greu tref ac iddi gysylltiadau da mae angen gwell arwyddion i ddynodi'r llwybrau, megis llwybr Llangybi, ynghyd â goleuadau a llwybrau rhwng mannau cyhoeddus a mannau agored.

**4.1.3 Trafnidiaeth**

Nid oes cyswllt trafnidiaeth gyhoeddus da rhwng Llanbedr Pont Steffan a threfi megis Aberteifi, a byddai ychwanegu gwasanaethau a fyddai'n gwella cysylltedd prif drefi Ceredigion yn fanteisiol i gynyddu symudiad pobl rhwng y trefi ac estyn cyrhaeddiad eu heconomïau lleol.

**4.1.4 Hygyrchedd**

O safbwynt hygyrchedd i'r anabl, mae strydoedd Llanbedr Pont Steffan yn llydan ac yn hawdd i bobl fynd heibio'i gilydd arnynt. Mae nifer da o fusnesau'n defnyddio arwyddion a dodrefn stryd yn llwyddiannus heb fawr ddim rhwystr i gerddwyr, pa un a ydynt yn gallu cerdded ai peidio. Mae'r defnydd o fannau awyr agored yn hanfodol ym myd manwerthu modern, a gellid mynd ati i ymgorffori hygyrchedd ein strydoedd mewn modd cadarnhaol yn rhan o strategaeth hunaniaeth tref ar gyfer Llanbedr Pont Steffan. Byddai'n ddoeth i'r dref fod yn destun asesiad hygyrchedd i'r anabl annibynnol i greu set hunanreoleiddiedig o argymhellion arfer gorau pwrpasol. Byddai hyn yn golygu y gallem farchnata'r dref – gyda'i siopau mynediad gwastad drwyddi draw – yn gyrchfan cyfeillgar i'r anabl.

Mae newidiadau diweddar i Stryd y Coleg wedi arwain at osod bolardiau i amddiffyn cerddwyr ac atal ceir sy'n parcio a cherbydau dosbarthu rhag difrodi wyneb y palmant. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r modd gorau o wasanaethu'r ganolfan fanwerthu mewn perthynas â dosbarthiad nwyddau.

Byddai addasiadau hygyrch i'r drafnidiaeth gyhoeddus gyfredol yn fuddiol, a byddai cynnwys cyfleusterau codi arbenigol yn y toiled hygyrch yn y llyfrgell yn hwb mawr i'r dref gan mai prin iawn yw cyfleusterau o'r fath i'r cyhoedd yng Ngheredigion.

Yn lle canolfan groeso ffisegol, byddai byrddau rhyngweithiol wedi'u gosod mewn lleoliadau allweddol yn y dref (er enghraifft, ym maes parcio Comins a Sgwâr Harford) o fudd i ymwelwyr â'r ardal. Gellid diweddaru gwybodaeth am ddigwyddiadau wrth i'r flwyddyn galendr fynd rhagddi.

**4.1.5 Camau Gweithredu**

- Cynnal Asesiad Hygyrchedd i Bobl Anabl annibynnol i greu set hunanreoleiddiedig o argymhellion arfer gorau pwrpasol a marchnata'r dref fel cyrchfan hygyrch.
- Gwella'r ddarpariaeth llwybrau beicio yn yr ardal a'u safon, gan sicrhau eu bod yn cael eu cysylltu â chanol tref Llanbedr Pont Steffan i annog pobl i ymweld.
- Cynyddu cysylltedd â'r cymunedau cyfagos, gan gynnwys estyn llwybrau cerdded i'r gogledd o Lanbedr Pont Steffan i gysylltu'r dref â dau safle tai posibl.
- Gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Llanbedr Pont Steffan a threfi eraill Ceredigion.
- Darparu cyfleusterau hygyrch ar y drafnidiaeth gyhoeddus gyfredol.
- Cynnwys cyfleusterau codi arbenigol yn y toiled hygyrch yn y llyfrgell.
- Gosod byrddau rhyngweithiol mewn lleoliadau allweddol ledled y dref.


Creu Lleoedd

**4.2.1 Darpariaeth Gymunedol**

Ar hyn o bryd mae gan y dref dri pharc, er y byddai darpariaeth chwarae ychwanegol ym mhen arall y dref, ger yr ysgolion, yn cael croeso.

Byddai trac pwmpio neu barc sglefrfyrddio yn yr awyr agored ac atyniadau dan do, megis man chwarae meddal neu ale fowlio, yn ddeniadol i breswylwyr ac ymwelwyr, ac yn gwella'r darpariaethau i ieuenctid yn yr ardal. Gallai hyrwyddo asedau cyfredol megis Canolfan Cwiltiau Cymru ac Amgueddfa Llanbedr Pont Steffan hefyd gael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr.

Byddai Llanbedr Pont Steffan yn elwa o blannu coed mawr byr eu gwreiddiau mewn lleoliadau priodol i greu cysgod, darparu gwyrddni, a chreu ardaloedd lle byddai pobl yn ymgynnull yn naturiol. Er enghraifft, mae Sgwâr Harford yn un lleoliad o'r fath lle dylid amrywio rhai o'r sbesimenau i ddarparu diddordeb gydol y flwyddyn, gan ddewis sbesimenau a fyddai'n cynnal y bywyd gwyllt lleol orau. Gallai rhoi lle blaenllaw i goed brodorol, llawer mwy mewn rhai lleoliadau, er enghraifft ar waelod Heol Maestir, gyfrannu at hunaniaeth y dref wrth i amser fynd heibio.

Gallai gosod gwaith celf cymunedol a/neu blinth cerflun priodol yn Sgwâr Harford greu canolbwynt a fyddai'n gweddu i dref megis Llanbedr Pont Steffan ac yn dathlu ei threftadaeth grefftau yn agored.

Mae cerfluniau a gwaith celf pwrpasol a choed yn cael eu hannog yn rhan o waith adnewyddu tirluniol caled a meddal; byddai'r rhain yn creu tirnodau newydd a allai gael effaith gadarnhaol, weledol ar ganfyddiad pobl o rannau o'r dref.

Nodwyd y lleoliadau canlynol:

- Yr ardal eistedd ym mhen Teras y Deml.
- Tir ar waelod Heol Maestir/Pontfaen.
- Ardal eistedd ar y Comins.
- Sedd ym mhen Teras y Deml.

Byddai caniatâd cynllunio i godi cerfluniau a gwaith celf yn cael ei roi i'r ardaloedd hyn ac ardaloedd eraill yn y dyfodol, fel y nodwyd gan Weithgor Caru Llanbed.

Dylid gwneud darpariaeth ar gyfer seddi cymunedol awyr agored. Gellid gosod meinciau stryd yn drefnus a rheolaidd mewn lleoliadau allweddol. Byddai seddau yn annog pobl i gerdded, eistedd ac ymlacio o gwmpas y dref, a byddent o fudd i boblogaeth gynyddol oedrannus y mae arni angen cyfnodau cyson o orffwys.

Dylid annog gwaith i ddatblygu rhai o adnoddau naturiol Llanbedr Pont Steffan i fod yn safleoedd a reolir ar gyfer gweithgareddau hamdden, er enghraifft y coetir a'r afon. Byddai cysylltu'r ardaloedd pwysig hyn â chynllun strategol ehangach yn gymorth i ddenu ymwelwyr i'r dref.

Yn rhan o'r cynllun cyffredinol i wella canol y dref, mae angen gwneud gwelliannau, trwy ddulliau priodol, i edrychiad tirnodau amlwg. Mae'r isod yn adeiladau a nodweddion allweddol sy'n gofyn am gael eu gwella yn y byrdymor:

- Mae Neuadd y Dref, a Chloc Neuadd y Dref yn arbennig, yn rhan amlwg o dreftadaeth Llanbedr Pont Steffan. Mae yna ddyletswydd gofal i gynnal ei statws a'i le yn seice'r dref.
- Ochr allanol Neuadd Victoria.
- Sgwâr Harford.
- Y Gofeb Ryfel a'r Ardd Goffa.

Mae cymryd y cyfrifoldeb yn ei ôl gan Gyngor Sir Ceredigion am gynnal a chadw Sgwâr Harford a'r ffynnon, a'r gofeb ryfel a'r Ardd Goffa, yn ddyhead gwirioneddol gan y Cyngor Tref.

**4.2.2 Cyfleoedd Datblygu**

Mae CDLl Llanbedr Pont Steffan yn nodi nifer o safleoedd posibl i'w datblygu, ac yn nodi canlyniadau posibl pe bai'r safleoedd yn cael eu datblygu yn y dyfodol.

Nododd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Bro ei fod o blaid cadw'r mannau hamdden cyfredol, megis cae chwarae Maesyderi ym mhen ucha'r dref, ac y dylid cyfyngu datblygiadau preswyl i safleoedd mewnlenwi yn y dref yn hytrach nag ymestyn y tu hwnt i derfynau cyfredol y dref. Dylid ystyried datblygu pob safle a nodir yn safleoedd mewnlenwi yn y CDLl, er y dylid defnyddio profion cymalog ar gyfer pob cynnig datblygu newydd.

Mae'r canlynol yn awgrymiadau a gododd o'r ymgynghoriad o ran y modd y dylai gwaith datblygu fynd rhagddo yn y dyfodol yn Llanbedr Pont Steffan, a'r hyn y dylai'r broses ei gynnwys:

- EO501 – Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan a safleoedd addas eraill ar gyfer datblygiad dibreswyl: mae yna alw posibl am adeiladu unedau newydd o feintiau amrywiol, gan fodloni'r angen am eiddo addas i'r diben ar gyfer prosesau diwydiannol a warysau masnachol, ac ar gyfer mannau busnes micro/a rennir llai. Mae i'r broses o greu mannau deori busnes y potensial i annog entrepreneuriaeth ac arloesedd mewn busnes, lle byddai busnesau newydd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gofodau am gyfnodau penodol i brofi eu hyfywedd. Dylid cyflwyno mesurau i helpu busnesau trosiant bach i gadw tenantiaethau'r adeiladau diwydiannol mawr sy'n ofynnol arnynt i fasnachu. Gallai'r rhain gynnwys capiau ar gostau rhentu preifat a chynlluniau i annog defnydd a rennir yn achos asedau megis cludiant a gyrwyr, i leihau gorbenion.
- Yn ddelfrydol, yn achos Tref Drawsnewid megis Llanbedr Pont Steffan, byddai unrhyw ddatblygiad newydd yn destun cynllun meistr priodol, a byddai'n cael mwy na'r gofyniad cyfreithiol o ardaloedd gwyrdd planedig, gyda choridorau natur amrywiol wedi'u dylunio'n rhan o'r gwaith; hefyd, lle bo modd, byddai cyn lleied â phosibl o waith tirweddu caled diangen yn cael ei wneud er mwyn annog niwtraliaeth o ran carbon. Dylid annog bod yr ardal yn cael ei defnyddio fel parc, a hefyd fel lle i bobl gerdded a beicio ynddo, lle ac iddo gysylltiadau da â chanol y dref a llwybrau beicio a llwybrau troed lleol. Mae'n rhesymol awgrymu bod pob datblygiad diwydiannol newydd ar y safle hwn neu'n agos ato yn cael ei inswleiddio'n gywir rhag sŵn er mwyn lleihau llygredd sŵn ychwanegol yn y SoDdGA.
- HO505 – Tir ger Maesyderi, a safleoedd addas eraill ar gyfer datblygiad preswyl: wrth i Lanbedr Pont Steffan ddatblygu yn ystod y degawd nesaf, bydd tai ychwanegol yn angenrheidiol; fodd bynnag, o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae datblygiad preswyl ar raddfa fawr yn cael ei wrthwynebu'n gadarn gan y dref. Ni chafodd llawer o safleoedd datblygu tai'r CDLl eu cydnabod o gwbl fel safleoedd posibl ar gyfer tai yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, anogir datblygiad preswyl amgylcheddol gynaliadwy ar raddfa fechan, fesul cam, a rhoddir pwyslais hefyd ar ddefnyddio contractwyr lleol a dulliau adeiladu ecolegol arloesol. Byddai cyfyngu ar nifer y lleiniau sydd ar gael i bob datblygwr yn annog datblygwyr lleol llai i'w defnyddio yn hytrach na chwmnïau cenedlaethol. Hefyd, trwy waith uwchgynllunio gofalus ar unrhyw safle gellid gosod cynsail dylunio da ar gyfer datblygu cynaliadwy fel bod y safleoedd yn cynnwys mwy na'r lleiafswm o fannau gwyrdd a phlanhigion mewn llwybrau sy'n cylchredeg, gan gynnwys lleiniau ar gyfer tai hunanadeiladu, lleiniau helaeth gyda thai wedi'u teilwra i'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu (gan greu stoc tai amlddeiliadaeth cymysg sy'n addasadwy, fforddiadwy a hygyrch), a gofod ar gyfer arloesi trwy greu cartrefi bychan (tiny homes), adeiladau parod di-garbon a gwaith datblygu dan y Gyfarwyddeb Un Blaned. Gallai mynnu defnyddio contractwyr sydd wedi'u hyfforddi'n lleol mewn technoleg eco-adeiladu ansawdd uchel gael effaith gadarnhaol hirdymor sylweddol o ran cadw pobl ifanc yn yr ardal gan y byddai'n darparu cyfleoedd hyfforddi deniadol yng Ngheredigion, a bywoliaeth yn yr ardal.

Dylid ystyried cylch bywyd llawn unrhyw dai newydd, a dylid gosod cynsail ar gyfer cartrefi addasadwy am oes.

Bydd cynnwys buddion datblygu hael sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach yn rhan o'r cynigion ar gyfer datblygiadau mawr (megis ardaloedd chwarae i blant, gwarchodfeydd natur a gerddi bywyd gwyllt a warchodir, banciau solar, cyfleuster cymunedol yng nghanolfan ailgylchu'r dref i drin compost â gwres, a rhandiroedd ar gyfer hunangynhaliaeth ar y cyd) yn sicrhau bod cymunedau'n parhau i fod â chysylltiadau cymdeithasol da o ganlyniad i allu cyrchu cyfleusterau hamdden a bod yn rhan o brosiectau cymunedol.

**4.2.3 Gwelliannau i’r Stryd Fawr a Gwell Ffryntiadau**

Mae Cynllun Bro Llanbedr Pont Steffan yn ceisio cadw cymeriad y dref, ynghyd ag annog amrywiaeth yn y siopau, a siopau annibynnol o safon dda. Mae pedwar prif barth manwerthu wedi’u nodi, sy’n cynrychioli cyfleoedd unigryw ar gyfer newid:

Parth A: ffryntiadau’r prif strydoedd siopa, sef Stryd y Bont, Y Stryd Fawr a Stryd y Coleg, sydd o fewn terfynau canol y dref. Ffryntiadau manwerthu eilaidd y tair prif stryd y tu allan i ffiniau canol y dref.

Argymhellir y dylid cadw ffryntiadau’r adeiladau ym mharth A fel prif ffryntiadau manwerthu, a bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw’r siopau sy’n cynnig nwyddau uchel eu safon ac amrywiol. Gallai siopau gwag gael eu defnyddio fel lleoliadau dros dro, neu gallai nifer o fusnesau eu rhannu i annog defnydd ohonynt ac i’w hatal rhag mynd â’u pen iddynt yn dilyn cyfnodau hir o fod yn wag. Mae ffryntiadau manwerthu eilaidd y tair prif stryd y tu allan i ffiniau canol y dref wedi’u nodi ar y cynllun.

Parth B: y ffryntiadau manwerthu cyfredol ym mharth B yn rhannau pellaf canol y dref – dylai’r rhain hefyd anelu at hyrwyddo defnydd manwerthu lle bo modd. Mewn rhai amgylchiadau, gellid caniatáu newid adeiladau o fod at ddefnydd manwerthu i fod er defnydd preswyl anfanwerthol.

Dylai’r penderfyniadau hyn ddibynnu ar yr effaith y bydd newidiadau o’r fath yn ei chael ar gynllun y dref yn y tymor hwy; penderfyniadau a fydd yn asesu’r effaith ar gymeriad, bywiogrwydd, hyfywedd ac ansawdd cyffredinol canol y dref. Dylid hyrwyddo eiddo preswyl newydd yng nghanol y dref, yn enwedig mewn perthynas â gofod uwchben siopau cyfredol nad yw’n cael ei ddefnyddio ddigon. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i’r ffordd orau o gael mynediad i gartrefi a siopau segur er mwyn eu hailddatblygu, a thrwy hynny liniaru effaith adeiladau gweigion ar y dref.


Parth C: yr ystad ddiwydiannol/manwerthu, Heol Tregaron – mae’r ystad ddiwydiannol yn Llanbedr Pont Steffan yn ased sylweddol i’r arlwy manwerthu yn y cyffiniau. Dylai gael ei chydnabod felly trwy gyfrwng gwell cysylltedd i gerddwyr i ganol y dref, ar hyd llwybrau troed a llwybrau beicio, yn ogystal ag arwyddion digonol o ganol y dref.

Parth D: Stryd y Farchnad – y stryd gefn sydd wedi’i phedestreiddio’n rhannol ac sy’n cysylltu Stryd y Coleg (ger siop fanwerthu Gwilym Price) â’r Stryd Fawr (gan ddod allan o dan Gloc y Dref).

Noda Cynllun Bro Llanbedr Pont Steffan y gellid gwella Stryd y Farchnad a Lleoliad y Farchnad trwy eu pedestreiddio. Mae’r gwelliannau hyn yn cynnwys mynediad a gedwir ar gyfer danfoniadau ac eiddo preswyl, mannau manwerthu bach, bywiog dros dro a stondinau codi tymhorol (megis bwyd stryd ar nosweithiau yn yr haf a marchnadoedd Nadolig). Byddai gwelliannau o’r fath yn cysylltu strydoedd Llanbedr Pont Steffan ynghyd, a byddai’r ardal yn denu pobl i eistedd a darllen y tu allan i’r llyfrgell yn ystod y dydd. Gyda’r hwyr byddai’n rhodfa ddiogel, wedi’i goleuo’n dda i gynnal economi fywiog y nos.

Gallai fod yno ddatblygiad defnydd cymysg o unedau manwerthu bach, gyda llety preswyl uwchben, elfennau a fyddai unwaith eto yn cadarnhau hunaniaeth yr ardal fel parth manwerthu pwysig arall.

Mae angen mynd i’r afael ar lefel gymunedol â’r materion sylfaenol sy’n cadw adeiladau’n wag, a gallai Gweithgor Caru Llanbed 2030 weithio tuag at gynnig atebion wedi’u teilwra ar gyfer pob safle, atebion y gallai’r perchnogion eu cyflawni pe dymunent.




Blaenoriaethau creu lleoedd Llanbedr Pont Steffan

### 4.2.4 Arwyddion

Byddai arwyddion clir sy'n amlygu nodweddion allweddol y dref wrth i bobl ddynesu ati yn annog y fasnach dwristiaeth sy'n mynd heibio i aros; masnach a fyddai fel arall yn mynd trwy'r dref. Dylai argaeledd lleoedd parcio ar gyfer ceir, carafanau a choetsys, ynghyd â mannau gwefru ceir trydan a gorsafoedd tanwydd, gael eu cynnwys yn y strategaeth arwyddion. Byddai dull cydlynol o osod arwyddion ar gyfer asedau a chyfleusterau o fudd mawr i ymwelwyr achlysurol â chanol y dref, ac yn gwella atyniad y treflun. Byddai hyn yn cynnwys:

- Canolfan Ailgylchu LAS.
- Cyfleusterau cyhoeddus.
- Y Ganolfan Hamdden.
- Parthau hamdden.
- Archfarchnadoedd.
- Y Pwll Nofio.
- Parciau.

Gallai arwyddion rhwng y parciau, y tirnodau a'r llwybrau cyhoeddus min afon ar gyrion y dref ar un llaw, a chanol y dref ar y llaw arall, greu symudiad pwrpasol o bobl o fewn Llanbedr Pont Steffan, a gallai hefyd annog defnydd o'r asedau naturiol sydd gan y dref o ran ei choetir, ei pharciau a'i hafonydd.

### 4.2.5 Parcio

Ochr yn ochr â'r posibilrwydd o ychwanegu mannau parcio gollwng nwyddau, mae gofyn i'r dref gael mannau parcio coetsys a charafanau, cypyrddau clo ar gyfer beiciau a chyfleusterau gwefru e-feiciau, ynghyd â man gwefru cyflym yng nghanol y dref ar gyfer ceir trydan.

Nododd llawer o bobl leol ac ymwelwyr fod y costau parcio yn afresymol; sef rheswm i beidio â gwneud defnydd llawn o'r dref a'i chyfleusterau pan fo cyrchfannau eraill i'w cael o fewn pellter gyrru derbyniol.

Mae Cynllun Bro Llanbedr Pont Steffan yn ceisio cadw cymeriad y dref, ynghyd ag annog amrywiaeth yn y siopau, a siopau annibynnol o safon dda.






1. Stryd y Farchnad
2. Canolfan Cwiltiau Cymru




Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan

**4.2.6 Camau Gweithredu**

- Neuadd Burgess/tirwedd y brifysgol, cornel Teras yr Orsaf: a hithau wedi'i lleoli ar brif lwybr i'r dref o'r Gogledd, gallai gwelliannau i'r ardal hon gael effaith gadarnhaol ar ymwelwyr â'r dref, gan gynnwys ymwelwyr sy'n mynychu digwyddiadau yn Neuadd Victoria. Yn ogystal â hyn, gallai ddechrau ailuno canol y dref â'i chyrion trwy greu cyrchfannau dymunol clir-ddiffiniedig i'r cyhoedd eu mwynhau.

- Neuadd Victoria: Byddai gwelliannau yn helpu i gysylltu canol y dref â'i chyrion, gan greu cyrchfannau dymunol clir-ddiffiniedig i'r cyhoedd eu mwynhau.

- Yr Hen Arcêd, siop cebabs a hen siop Spar: mae'r eiddo gwag hyn bellach mewn cyflwr gwael. Gellid sicrhau enillion byrdymor trwy wneud gwaith adfer cosmetig i du allan yr adeiladau (peintio, atgyweirio'r gwaith coed). Yn yr hirdymor, dylid annog eu bod yn cael eu hadnewyddu a'u meddiannu. Mae'r hen siop Spar yn siop wag ac iddi ffryntiad helaeth a thalcen mawr noeth, nodweddion nad ydynt yn gwneud fawr ddim i wella'r treflun.

- Y defnydd o gelf a lliw: yn hanfodol i greu strydoedd deniadol. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ffryntiadau adeiladau yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac addurnol, a'u bod yn parhau i fod yn gydnaws ag arddull bensaernïol y dref.

- Datblygu palet lliw priodol: byddai hyn yn atgyfnerthu hunaniaeth y dref. Gallai creu Arfarniad o'r Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli lywio newidiadau i estheteg y dref yn y dyfodol, a chefnogi Cynllun 2030 Llanbedr Pont Steffan.

- Gwaith celf cymunedol, cerfluniau a murluniau proffesiynol: gellid gosod gwaith celf mewn lleoliadau allweddol ledled y dref, gan greu diddordeb gweledol, perchnogaeth gymunedol, a sicrhau bod Llanbedr Pont Steffan yn parhau i edrych yn ddeniadol a chroesawgar; elfennau allweddol i greu tref fywiog, ddiogel. Mae enghreifftiau lle gellid gosod gwaith celf proffesiynol yn cynnwys y waliau gwag ar dalcen archfarchnad Sainsbury's, y lôn â gatiau sy'n rhedeg ochr yn ochr ag Asiant Eiddo Evans Bros., Teras y Deml a Heol Pontfaen.

- Goleuadau lliwgar gyda'r nos: byddai parhau i oleuo'r brifysgol mewn lliw dethol gyda'r nos, ynghyd â goleuo asedau pensaernïol eraill, yn helpu i gynyddu'r apêl gyda'r hwyr ac yn ychwanegu diddordeb gweledol i'n strydoedd. Byddai gosod goleuadau yn cefnogi economi fywiog, a byddai hefyd yn galluogi'r dref i ddangos ei chefnogaeth mewn ffordd greadigol ar adegau dathlu diwrnodau cenedlaethol allweddol, megis Sul y Cofio, a digwyddiadau lleol eraill.

- Tŵr cloc y dref: mae yna botensial i'w adnewyddu, a gallai hyn sicrhau buddion hanesyddol ac i dwristiaeth.

- Stryd y Farchnad: byddai pedestreiddio yn caniatáu i stondinau masnachu tymhorol a thros dro gael eu cynnal, a byddai hefyd yn creu cyswllt croesawgar rhwng dwy brif ardal fanwerthu y Stryd Fawr a Stryd y Coleg. Mae gwaith gwella yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

- Mannau deori busnesau a thenantiaethau a gedwir: mae gan y rhain y potensial i annog entrepreneuriaeth ac arloesedd mewn busnesau, a byddai busnesau newydd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gofodau am gyfnodau penodol i brofi eu hyfywedd. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i fesurau i helpu busnesau â throsiant llai i gadw eu tenantiaethau ar yr adeiladau diwydiannol mawr sy'n ofynnol arnynt i fasnachu, mesurau megis gosod cap ar gostau rhentu preifat, a sefydlu cynlluniau i annog rhannu asedau megis trafnidiaeth a gyrwyr er mwyn lleihau gorbenion.

- Darparu cyfleusterau arlwyo a seddi: byddai hyn yn annog cyflenwyr bwyd stryd i weithredu o unedau sy'n addas ar gyfer hamdden/lletygarwch, ac, ymhen amser, yn cefnogi'r rhai sy'n tyfu i fynd am uned unigol.

- Gostyngiad dewisol mewn ffioedd newid defnydd/rhenti gostyngol: darparu rhenti gostyngol gyda chymal camu i fyny cytunedig i fusnesau ffryntiad manwerthu eilaidd llwyddiannus lleol iddynt dderbyn cynnig manwerthu ar y Stryd Fawr. Yn achos yr unedau hynny sy'n fwy addas ar gyfer sawl defnyddiwr, darparu unedau dechrau busnes mewn clystyrau ac ar rent â chymhorthdal i fusnesau crefft, cynhyrchu bwyd ac artisan, a hynny yn y gobaith y gall llwyddiant ar y Stryd Fawr olygu eu bod yn mynd am unedau unigol ar ffryntiadau eilaidd.

- Adennill y Stryd Fawr: buddsoddi trwy brynu prif ffryntiadau manwerthu sy'n eiddo i gronfeydd pensiwn ar hyn o bryd, a rhannu'r unedau'n siopau, swyddfeydd, gofodau hamdden a thai. Gellir ailddosbarthu'r rhai sy'n addas ar gyfer gofod swyddfa i bartneriaid sy'n delio â chwsmeriaid a phartneriaid trydydd sector eraill, gan felly gynyddu nifer yr ymwelwyr.

- Troi lloriau segur uwch i fod yn dai a reolir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig/y Cyngor: i ddiwallu anghenion y gwasanaeth fel y'u diffinnir gan y tîm Tai, neu i fod yn unedau byw/gweithio.

- Dull 'Canol Trefi yn Gyntaf': mae'r awgrymiadau hyn yn rhan o ddull gweithredu 'Canol Trefi yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru. Byddai ehangu cynnig manwerthu y Stryd Fawr yn cefnogi busnesau annibynnol lleol i gael mynediad i unedau mewn prif ffryntiadau manwerthu am brisiau fforddiadwy, yn ogystal ag arwain chwyldro busnesau annibynnol yn Llanbedr Pont Steffan, lle mae cwmnïau annibynnol a'r newid i fasnachu ar-lein wedi bod yn llawer mwy cynaliadwy yn ystod y pandemig na siopau cadwyn cenedlaethol. Gallai hyn hefyd gael effaith ar dwristiaeth pe gellid marchnata Llandysul yn ganolfan rhagoriaeth 'artisan/annibynnol'.

# Treftadaeth a Diwylliant





Palet deunyddiau Llanbedr Pont Steffan

#### 4.3.1 Y Gymraeg

Bydd cydnabyddiaeth o'r diwylliant Cymreig a'r Gymraeg, a pharch yn hynny o beth, yn gydblethedig ac ymhlyg ym mhopeth sy'n ymwneud â Chynllun Bro Llanbedr Pont Steffan a datblygiad y dref i'r dyfodol. Dylid mynd ar drywydd cyfleoedd i ddefnyddio'r brifysgol a'i chyfleusterau i gryfhau'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion yn yr ardal, a dylai'r cyfleoedd hynny gael eu hannog.

Bydd y Gymraeg yn llinyn allweddol diamheuol a fydd yn rhedeg trwy bob datblygiad cymunedol, a bydd darparu dosbarthiadau Cymraeg i'r di-Gymraeg yn cael ei annog ymhellach i gefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i greu a chefnogi miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd y syniad o greu Ceredigion sy'n cyfateb i Ganolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn, gyda'r awgrym bod y brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan yn parhau i fod mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnal cyrsiau Cymraeg preswyl dwys, fel y gwnaeth unwaith pan oedd cyrsiau preswyl Wlpan yn cael eu haddysgu ar y campws.

Roedd yr adborth cymunedol yn cynnwys y canlynol:

- Cyfrannu mewn modd gweithredol at darged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Parhau i adeiladu ar y berthynas bresennol â mentrau iaith sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r iaith, gan gynnwys ymhlith dysgwyr Cymraeg ac mewn digwyddiadau megis parêd Dydd Gŵyl Dewi.
- Parhau i weithio gyda sefydliadau lleol sy'n hybu'r Gymraeg, megis Cered ymhlith busnesau lleol, a PCYDDS ar gyfer cyrsiau Cymraeg preswyl.
- Parhau i gefnogi'r defnydd o adeilad y brifysgol i greu a chefnogi sylfaen wybodaeth leol ar gyfer prosiectau megis Amgueddfa Hanes Llanbedr Pont Steffan yn y Porthordy.

#### 4.3.2 Diwylliant Hanesyddol a Threftadaeth Bensaernïol

Mae Llanbedr Pont Steffan yn dref farchnad a phrifysgol draddodiadol. Yn ddiweddarach, daeth olion y castell Normanaidd ym Mhont Steffan ar lan Afon Teifi i fod yn sylfeini adeilad Coleg Dewi Sant, sy'n parhau i fod yn rhan o gampws PCYDDS heddiw. Mae campws y brifysgol wedi tra-arglwyddiaethu ar ddatblygiad y dref ers ei sefydlu yn 1822.

Mae yna dri llwybr allweddol i ganol y dref, sy'n cwrdd yn Sgwâr Harford. Yn hanesyddol, roedd y Stryd Fawr eang yn lletya nifer o ffeiriau, gan gynnwys ffeiriau ceffylau, tra bo lleoliad strategol Llanbedr Pont Steffan ar un o ffyrdd y porthmyn yn golygu bod llawer o grefftau gwledig yn cael eu creu yn y dref. Mae i Lanbedr Pont Steffan gysylltiad arbennig â diwydiant gwlân Cymru.

Mae rhan helaeth o ganol tref Llanbedr Pont Steffan wedi'i dynodi'n Ardal Gadwraeth, lle mae nifer o adeiladau rhestredig wedi'u lleoli. Un o brif nodweddion y dref yw PCYDDS a'i thiroedd, lle mae Twmpath y Castell yn Heneb Gofrestredig. Dynodwyd Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan yn 1969, a chafodd ei diwygio yn 1987. Mae 25 o Adeiladau Rhestredig, un ohonynt yn Radd II*, ac un Heneb Gofrestredig, sef Twmpath Castell Llanbedr Pont Steffan, y soniwyd amdano eisoes, i'w cael yn Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan.

Mae Llanbedr Pont Steffan yn elwa o bensaernïaeth uchel ei safon drwyddi draw, pensaernïaeth sy'n amlygu naratif ei datblygiad dros amser. Ceir nifer o adeiladau rhestredig yn y dref, ond mae yna lawer mwy ac iddynt bwysigrwydd neilltuol nad ydynt wedi'u rhestru. Awgrymir y gallai mynd ati i warchod adeiladau, megis Neuadd Victoria, Neuadd yr Esgob Burgess (gyda'i waith brics nadd; gweler y llun gerllaw) a rhai o'r adeiladau manwerthu ceinach ar y Stryd Fawr a Stryd y Coleg, olygu na fyddir yn colli rhannau sylweddol o hanes cymdeithasol y dref; bu'r gwaith digynsail diweddar o ddymchwel ffasâd hen adeilad Ysgol Ffynnonbedr ar Heol y Bryn yn ergyd i'r gymuned, a bydd ei effaith ar hanes cymdeithasol gweladwy'r dref yn hirhoedlog.

Mae diwylliant hanesyddol Llanbedr Pont Steffan a'r cyffiniau yn gyfoethog ac amrywiol, ac mae llawer o asedau ffisegol yn dal i fodoli. Mae mewnbwn Amgueddfa Llanbedr Pont Steffan, yn rhan o Weithgor Caru Llanbed, mewn lle da i hybu'r gwaith parhaus o hyrwyddo Llanbedr Pont Steffan trwy ei threftadaeth.

#### 4.3.3 Camau Gweithredu

- Gwarchod adeiladau: byddai gwarchod adeiladau megis Neuadd Fictoria, Neuadd yr Esgob Burgess (gyda'i waith brics nadd) a rhai o'r adeiladau manwerthu ceinach ar y Stryd Fawr a Stryd y Coleg yn golygu na fyddir yn colli rhannau sylweddol o hanes cymdeithasol y dref. Er enghraifft, croesewir trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw Sgwâr Harford a'r ffynnon, y Gofeb Ryfel a'r Ardd Goffa oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion yn ôl i Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan. Yn ogystal, dylid hefyd gadw pafiliwn y brifysgol, adeilad rhestredig Gradd II, sydd bellach o dan adain cynlluniau datblygu Canolfan Tir Glas.

- Enwau'r strydoedd: mae enwau strydoedd Cymraeg ac enwau Cymraeg ar adeiladau yn nodwedd bwysig o'r dref gan eu bod yn cadw ei threftadaeth ddiwylliannol a'i hanes. Byddai cyfres o fyrddau gwybodaeth rhyngweithiol i esbonio a hyrwyddo eu tarddiad yn cael croeso. Yn ogystal, gallai rhwydwaith o 'ffaglau' gwybodaeth gael eu defnyddio gan ap ar gyfer y dref i ddarparu haen arall i ymdrwytho yn nhreftadaeth y dref. Awgrymwyd ymhellach y dylid rhoi enw lleol priodol i bob datblygiad newydd, enw a fyddai'n deillio o'r ardal lle mae, neu a fyddai'n cael eu hysbrydoli ganddi.

- Uno'r strydlun: dylai datblygiadau newydd yn y dref fod yn uchel eu safon, gyda ffurf a pherthnasedd brodorol wrth wraidd eu dyluniad. I greu strydlun unedig, yn enwedig yng nghanol y dref, anogir mesurau i wella safon a golwg adeiladau presennol yn unol ag enghreifftiau lleol da tebyg eu harddull.

- Hyrwyddo hanes lleol: anogir mynd ati'n ehangach i hyrwyddo hanes adeilad y brifysgol, Sarn Helen ac adeiladweithiau Rhufeinig eraill, a Mwnt y Castell Normanaidd ar dir y brifysgol.

Roedd lleoliad strategol Llanbedr Pont Steffan ar un o ffyrdd y porthmyn yn golygu bod llawer o grefftau gwledig yn cael eu creu yn y dref.

# Yr Economi



#### 4.4.1 Addysg

Mae’r ddarpariaeth addysg 3-18 oed yn Llanbedr Pont Steffan yn gaffaeliad cryf i’r dref. Cyflawnodd Ysgol Bro Pedr, er enghraifft, ddeilliannau ‘Da’ yn gyffredinol yn asesiad Estyn yn 2016. Mae hyrwyddo hyn, ochr yn ochr â safon yr addysg feithrin a gwasanaethau cymunedol megis canolfan Cymorth Cymunedol Canolfan Steffan yn y dref, yn allweddol.

Mae gan ddarpariaeth addysgol gref y potensial i ddenu demograffeg iau o ymsefydlwyr newydd i’r dref a’r ardaloedd cyfagos. Wrth wneud hynny, bydd yn gwrthbwyso effaith y lefelau presennol o ymfudo ymhlith ieuenctid Ceredigion y tu hwnt i oedran addysg lawn-amser.

Bydd llunio cyrsiau addysg uwch a phellach yn y brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan, trwy’r rhaglen ‘Ysgol Cydnerthedd’ arfaethedig, yn darparu dysgu lleol seiliedig ar sgiliau a fydd yn deillio o addysgu egwyddorion a sgiliau cymhwysol dylunio cynaliadwy i breswylwyr lleol a myfyrwyr o fannau ymhellach i ffwrdd. Ar hyn o bryd, nid yw’r dysgu seiliedig ar gydnerthedd hwn mewn meysydd sy’n berthnasol i gynaliadwyedd ym myd Bwyd a Ffermio, yr Amgylchedd Adeiledig, ac Ynni, yn cael ei addysgu ar lefel prifysgol yn unman arall yn y DU, a byddai datblygu’r rhaglen nes ei bod yn dwyn ffrwyth yn atgyfnerthu’r agwedd arloesol sydd gan Lanbedr Pont Steffan eisoes o fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd.

Mae PCYDDS yn gyfleuster academaidd pwysig, a lleolir un o’i phrif gampysau yn nhref wledig Llanbedr Pont Steffan. Gyda’i phwyslais ar ddysgu cymhwysol a disgyblaethau academaidd cryf, mae’n rhoi’r hyder, y sgiliau a’r rhinweddau arweinyddiaeth angenrheidiol i fyfyrwyr, gan eu galluogi i gystadlu mewn marchnadoedd lleol a byd-eang.

Mae gan ddatblygu cynaliadwy y potensial i wella bywydau pobl yn sylweddol, ac mae’r brifysgol wedi ymgorffori cynaliadwyedd yn rhan o’i haddysgu craidd, gan ysbrydoli myfyrwyr a graddedigion i wneud gwahaniaeth i’r gymdeithas y maent yn byw ynddi. Yn greiddiol i PCYDDS y mae “hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, adnewyddiad economaidd a datblygiad cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol.”

Mae’r brifysgol wedi meithrin llawer o bartneriaethau cydweithredol yn y DU ac yn rhyngwladol, gan annog a chroesawu myfyrwyr o fannau mor bell i ffwrdd ag India a gwledydd Dwyrain Asia.

Sefydliad Confucius, a grëwyd yn 2007, yw’r canlyniad. Bydd yn canolbwyntio ar ystod o feysydd sy’n ymwneud â lliniaru effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt. Bydd hefyd yn rhoi pwyslais ar sgiliau sy’n ymwneud â byw a gweithio’n gynaliadwy. Amlinellir nodau ac amcanion Canolfan Cydnerthedd a Harmoni Cymru fel a ganlyn:

Amgylcheddol:


- Meithrin ymwybyddiaeth yn y gymuned a thu hwnt o effaith y newid yn yr hinsawdd.
- Darparu amrywiaeth o gyrsiau ym maes cynaliadwyedd ac iddynt ffocws ar ffyrdd cydnerth, cytûn a chynaliadwy o fyw a gweithio.
- Ehangu’r cyfleoedd ym maes twristiaeth gynaliadwy.
- Gweithio gydag ysgolion a cholegau lleol i feithrin ymwybyddiaeth disgyblion a myfyrwyr o ystod o faterion perthnasol sy’n ymwneud â chynaliadwyedd ac adfywio cymunedol.
- Darparu cymorth i fentrau lleol sy’n cefnogi bwriadau Llywodraeth Cymru i wireddu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Diwylliannol:

- Cefnogi’r Gymraeg fel iaith gymunedol lle mae ganddi gyfle i ddatblygu a ffynnu.
- Dathlu’r ffordd wledig Gymreig o fyw, ei threftadaeth a’i diwylliant.

Rhoddodd y gymuned yr adborth canlynol i ni:

- Gallai defnyddio adeiladau a chyfleusterau presennol y brifysgol i greu a chynnal sylfaen wybodaeth werthfawr hyrwyddo Llanbedr Pont Steffan yn economaidd.
- Gallai cymhwyso’r ddysgeidiaeth i fusnesau lleol, ynghyd â’r arbenigedd adeiladu cynaliadwy, fod yn sylfaen dda i weithredu llawer o’r canllawiau a’r prosiectau datblygu a all ddeillio o’r Cynllun Bro a’r Gweithgor Caru Llanbed.




Blaenoriaethau economaidd Llanbedr pont Steffan

**4.4.2 Twristiaeth**

Mae denu ymwelwyr a thwristiaid yn allweddol i gyfrannu at ddatblygiad economaidd-gymdeithasol y dref. Mae twristiaeth yn creu cyfleoedd cyflogaeth ac yn hybu’r economi leol, gan gynnig y potensial i ailfuddsoddi arian i wella cyfleusterau a gwasanaethau’r dref, elfen sydd, yn ei thro, o fudd i’r gymuned leol. Mae twristiaeth yn cefnogi busnesau lleol, yn meithrin entrepreneuriaeth ac yn creu cyfleoedd busnes newydd.

**4.4.3 Hyrwyddo**

Mae Llanbedr Pont Steffan yn chwarae rhan sylweddol yn economi, diwylliant a llesiant Ceredigion. Ar hyn o bryd, rheolir y dref yn bennaf gan Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan, Siambr Fasnach Llanbedr Pont Steffan a Chyngor Sir Ceredigion. Hyd yma, nid oes un corff unigol wedi bod yn gyfrifol am hyrwyddo a rheoli’r dref yn gyffredinol, elfen sydd wedi arwain at weithredu araf a diffyg gweledigaeth gyffredinol ar gyfer yr ardal. Mae’r Cynllun Bro, ynghyd â Gweledigaeth Llanbedr Pont Steffan 2030, yn ceisio mynd i’r afael â’r mater hwn a sefydlu un corff trosfwaol, corff a fydd yn cwmpasu’r grwpiau allweddol isod, ymhlith eraill, sef grwpiau sy’n weithgar o ran mynd i’r afael â’r broses o wella Llanbedr Pont Steffan a’r ardaloedd cyfagos.









1. Busnesau lleol ar y Stryd Fawr
2. Llyfyrgell
3. PCYDDS

#### 4.4.4 Camau Gweithredu

Gweithgor Caru Llanbed: cymeradwywyd ffurfio Gweithgor Llanbedr Pont Steffan 2030 yn Is-bwyllgor ffurfiol gan y Cyngor Tref, a chafodd ei ailenwi'n Caru Llanbed.

Diben cyffredinol yr Is-bwyllgor yw:

1. Gweithio gyda phartneriaid eraill yn y dref i gael effaith fuddiol ar wead economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y gymuned leol. Mae hwn yn grŵp ar y cyd â phartneriaid sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Siambr Fasnach Llanbedr Pont Steffan, Trawsnewid Llambed, Croeso i Gerddwyr Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch, Hanes Llambed, PCYDDS, eglwysi, a grwpiau diwylliannol a chymdeithasol.
2. Ystyried, a lle bo'n briodol, annog, hwyluso, neu drefnu digwyddiadau, gwyliau a gweithgareddau eraill yn uniongyrchol.

Bydd Is-bwyllgor Caru Llanbed yn cymryd yr holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghori ar y Cynllun Bro ac yn ei throi'n gynllun ymarferol ac amserol. Er y gallai rhai amcanion fod yn uchelgeisiol, mae llawer ohonynt yn realistig a, gyda'r rheolaeth a'r cyllid cywir, gellir eu gweithredu. Bydd yr Is-bwyllgor yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gydlynu'r amrywiol fentrau a swyddogaethau sy'n mynd rhagddynt yn y dref ac o'i chwmpas, gan gryfhau'r holl opsiynau.

Mae cefnogi digwyddiadau cymunedol presennol a chreu digwyddiadau cymunedol newydd, yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a chan ddefnyddio cryfderau'r sefydliadau a ddygwyd ynghyd yn yr Is-bwyllgor, yn flaenoriaeth. Yn y pen draw, bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei rhannu ag aneddiadau cyswllt Llanbedr Pont Steffan a'r cynghorau cymuned cyfagos, a hynny fel y gellir ei defnyddio, lle bo gofyn, ar bob lefel yn y gymuned.

- Mynediad 'am ddim i ddefnyddwyr' at Wi-Fi: byddai hyn yn cynhyrchu data gwerthfawr ar gyfer rhanddeiliaid y dref. Er enghraifft, nifer yr ymwelwyr dyddiol â'r dref, pa adegau o'r dydd, yr wythnos neu'r mis yw'r prysuraf, a pha mor hir ar gyfartaledd y mae pobl yn aros yn y dref. Bydd y data hyn yn helpu i nodi'r camau y mae angen i randdeiliaid yn y dref eu cymryd i barhau i fod yn gystadleuol a gwasanaethu anghenion newidiol cwsmeriaid. Fel adnodd digidol, gall Wi-Fi am ddim alluogi unigolion a grwpiau i wella eu sefyllfa ariannol a chymdeithasol.
- Cynyddu cyfleoedd twristiaeth: yn ogystal â darparu dull cydlynol cyffredinol, bydd Is-bwyllgor Caru Llanbed yn gweithio tuag at gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r dref a'r ardaloedd cyfagos, ynghyd ag ar y cyd â'r gymuned fusnes i feithrin partneriaeth weithio a fydd yn gwella ac yn cynnal canol y dref yn yr hirdymor.
- Ap Tref: bydd creu Ap Tref, ymhlith mentrau technolegol eraill, yn gymorth mawr i'r Is-bwyllgor gan y bydd yn darparu ffigurau meintiol ar niferoedd yr ymwelwyr, ffigurau sydd, fel y gwyddom o ganlyniad i roi'r ap ar waith mewn trefi eraill, yn hynod o werthfawr o ran ysgogi newid i ddenu masnach twristiaeth i'r dref.
- Mentrau a Rennir: bydd Is-bwyllgor Caru Llanbed hefyd yn mynd ati'n frwd i weithio ar y cyd â grwpiau tebyg o Aberteifi, Llandysul, Tregaron, Aberaeron ac Aberystwyth i greu a chynnal cyfraniad ffyniannus, gwerthfawr a chyfoethog i bobl yr ardal ac ymwelwyr â Cheredigion. Bydd mentrau i hyrwyddo dull cydgysylltiedig o ymwneud â'r ardal gyfan, a'r rheiny'n fentrau sydd wedi bod yn destun ystyriaeth dda, yn darparu apêl eang i ddenu a chadw mwy o ymwelwyr yn yr ardal.
- Gwell cyfleusterau parcio: mae yna le i ymgorffori gwell meysydd parcio i goetsys a charafanau er mwyn annog twristiaeth i'r dref.
- Plannu coed a gosod seddi: gallai plannu ar raddfa fawr, gan gynnwys coed peli gwraidd bach, a gosod seddi hefyd fynd rhagddo yn Sgwâr Harford, tra byddai creu gorchudd coed trefol ac ardal eistedd yn Heol Maestir yn sicrhau buddion hamdden a thwristiaeth.
- Clybiau garddio cymunedol a bywyd gwyllt: mae cyfleoedd ar gael i gyfuno ardaloedd nas defnyddir yn ddigonol â chlybiau garddio cymunedol a bywyd gwyllt, clybiau a allai, yn eu tro, rannu cyfleusterau. Gellid cyplysu hyn â'r awydd i ddarparu rhandiroedd ychwanegol yn y dref. Mae cyllid ar gyfer rhandiroedd ar gael trwy becyn cymorth a ddarperir gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo atyniadau lleol: gallai hyrwyddo asedau presennol, megis Canolfan Cwiltiau Cymru ac Amgueddfa Llanbedr Pont Steffan, gael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr.
- Arwyddion: codi arwyddion o gwmpas y dref i hyrwyddo gwasanaethau a chyfleusterau allweddol presennol a darpar wasanaethau a chyfleusterau, er enghraifft meysydd parcio, mannau gwefru cerbydau trydan, y llyfrgell, swyddfeydd y Cyngor, archfarchnadoedd a siopau, cyfleusterau hamdden, ac atyniadau diwylliannol megis yr Amgueddfa a Chanolfan Cwiltiau Cymru. Dylai mynd at i hyrwyddo asedau'r dref ddenu masnach ychwanegol sy'n mynd heibio.
- Gwelliannau: mae gogledd canol y dref wedi cael ei nodi'n ardal ar gyfer gwelliannau posibl, ac yn benodol o amgylch Neuadd Burgess a chornel Teras yr Orsaf. Mynegwyd y byddai'r posibilrwydd o dirweddu cornel ogledd-orllewinol y brifysgol nid yn unig yn cael effaith gadarnhaol ar ymwelwyr â'r dref, gan gynnwys pobl sy'n ymweld ar gyfer digwyddiadau yn Neuadd Victoria, ond byddai hefyd yn fodd i ailuno canol y dref â'r cyrion am y byddai'n creu cyrchfan ddymunol a chlir-ddiffiniedig i'r cyhoedd ei mwynhau. Gallai hyn gyd-fynd â gwell cysylltiadau teithio llesol rhwng prif ganolfannau economaidd Llanbedr Pont Steffan, Parc Busnes Pont Steffan a chanol y dref ei hun.
- Statws 'Awyr Dywyll' y Llwybr Llaethog: byddai archwilio ardaloedd o amgylch Llanbedr Pont Steffan a allai ennill statws Awyr Dywyll y Llwybr Llaethog yn annog twristiaeth i'r ardal.



# Yr Amgylchedd

#### 4.5.1 Yr Amgylchedd Naturiol

Mae cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol yn cyfrannu at iechyd a llesiant y gymuned leol, yn negyddu allyriadau carbon niweidiol, ac yn denu a chadw bywyd gwyllt a chynefinoedd bywyd gwyllt, tra bo coed a gwlyptiroedd yn amsugno dŵr, gan leihau'r perygl o lifogydd.

Mae yna awydd am fwy o blanhigion yn y dref, ac am hygyrchedd a rhyng-gysylltiad rhwng yr holl fannau cyhoeddus agored yn y cyffiniau.

#### 4.5.2 Teithio Cynaliadwy

Mae darpariaeth ar gyfer cerbydau trydan yn bwysig i'r amgylchedd, ond gellir hefyd marchnata hyn a denu ymwelwyr. Mae cyfleusterau gwefru cerbydau trydan ar gael yng Ngwesty'r Falcondale, filltir i ffwrdd o ganol Llanbedr Pont Steffan, nad yw'n darparu fawr o fudd uniongyrchol i bobl sy'n aros i wefru eu ceir yng nghanol y dref, ac yng Nghanolfan Fusnes y Creuddyn, lle mae mannau gwefru newydd wedi'u gosod bellach. Mae mannau gwefru hefyd wedi cael eu gosod ar gampws PCYDDS, Llanbedr Pont Steffan.

#### 4.5.3 Seilwaith Gwyrdd

Mae tref Llanbedr Pont Steffan wedi'i lleoli yn Nyffryn Teifi, ac yn cael ei hamgylchynu â chaeau amaethyddol, porfeydd gwlyb, blociau o goetir a gwern helyg. Mae dwy lednant, Nant Creuddyn ac Afon Dulas, yn ffurfio dyffrynnoedd o amgylch y dref. Amlinellir y cyfleoedd datblygu yn y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas (GBI).

#### 4.5.4 Llifogydd

Llifogydd afonol sy'n effeithio ar Lanbedr Pont Steffan yn bennaf. Mae ardaloedd yn ne Llanbedr Pont Steffan o fewn parth llifogydd C2. Mae dau leoliad arall i'w cael o fewn parth llifogydd C2 hefyd, un ohonynt wrth ymyl Rhodfa Glynhebog, lle mae'n dilyn Nant Creuddyn. Mae'r gorlifdir hefyd yn rhedeg trwy gampws y Brifysgol, Teras yr Orsaf a hyd at yr Ystad Ddiwydiannol, gan amgylchynu Afon Dulas.

#### 4.5.5 Camau Gweithredu

- Cyfuno ardaloedd a danddefnyddir: gan gynnwys grwpiau garddio cymunedol a bywyd gwyllt fel cyfleusterau a rennir.

- Defnyddio coed helyg brodorol: datrysiad sefydlogi carbon ar orlifdiroedd dwrlawn, ond efallai y bydd angen ystyried rheolaeth llifogydd ychwanegol i atal llifogydd yn y Co-op a'i faes parcio.

- Gwella cyfleusterau i gerddwyr cŵn: gan gynnwys darparu biniau baw cŵn a pheiriannau dosbarthu bagiau. I gyd-fynd â hyn, mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd Ceredigion (GIA) yn amlygu cyfleoedd i estyn oriau agor cae chwarae'r brifysgol a gwella hygyrchedd i gerddwyr cŵn.

- Archwilio'r statws 'Maes y Dref' a'r statws 'Gwarchodfa Natur': byddai hyn yn sicrhau rhywfaint o amddiffyniad rhag datblygiadau yn y dyfodol. Er enghraifft, byddai rhai o lannau afonydd a mannau gwyrdd Llanbedr Pont Steffan, y coetir o amgylch y dref a Pharc St Germain-sur-Moine yn cael eu cadw er llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac i astudio fflora a ffawna penodol yr ardal.

- Ailgyflwyno perthi a choed brodorol a reolir: mae cymuned Llanbedr Pont Steffan wedi nodi'r ffordd ddynesu i Lanbedr Pont Steffan o Gwm-ann fel ardal benodol lle gellid ailgyflwyno perthi a choed brodorol a reolir. Mae yna gyfle, o bosibl, i gysylltu hyn â chyfleoedd gwella bioamrywiaeth eraill, fel yr amlinellwyd yn GIA Ceredigion, gan gynnwys yn achos y caeau i'r de o'r hen gyrtiau tennis nad ydynt yn cael eu rheoli, glan orllewinol Afon Dulas, a phrosiect tirweddu parc y brifysgol.

- Nododd adborth cymunedol fod y gorlifdir ar ffin Cwm-ann a Llanybydder yn ardal lle gallai plannu helyg a pherthi brodorol wella'r gwaith o reoleiddio llifogydd a gwytnwch yn erbyn yr hinsawdd.

- Nododd GIA Ceredigion hefyd y potensial ar gyfer coetir cymunedol newydd a gwelliannau i gysylltedd yn y dirwedd, a hynny trwy gysylltu'r coetir a'r coed â choridor yr afon.

- Cadw parciau chwarae a meysydd chwaraeon: byddai defnyddio'r mannau hyn ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau – er enghraifft, sinema awyr agored dros dro ac arwerthiannau cist car rheolaidd ar safle ar hyd Heol Pontfaen, lle byddai rhywfaint o waith paratoi'r pridd ac adeiladu yn ofynnol – yn creu ased llawer mwy hyblyg yn y dref ar gyfer mwynhad trwy gydol y flwyddyn, ynghyd â chreu maes parcio gorlif hygyrch ar gyfer digwyddiadau.

- Dyrannu gofod awyr agored: dylid annog darpariaeth o fannau agored yn Llanbedr Pont Steffan, mannau sy'n anelu at y defnydd o gyfleusterau llwyfannu uwchdechnoleg awyr agored dros dro, a hynny er mwyn cynyddu'r gallu i ddigwyddiadau mawr o safon gael eu cynnal yma.



Tirwedd Llanbedr Pont Steffan

Allwedd:

Safleoedd a nodir yn y Cynllun Bro

— Ffin yr anheddiad

— Ffin y safle

1. Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
   Addysg
2. Stryd y Bont
   Gwelliannau i flaenau siopau
3. Y Stryd Fawr
   Gwelliannau i flaenau siopau
4. Stryd y Coleg
   Gwelliannau i flaenau siopau
5. Neuadd Victoria
   Man ymgynnull cymunedol
6. Y Llew Ddu
   Ased hanesyddol
7. Parc yr Orsedd
   Adloniant/hamdden
8. Y Gofeb Ryfel
   Canolbwynt
9. Siop Gwilym Price
   Siop annibynnol hanesyddol
10. Canolfan Cwiltiau Cymru
    Amgueddfa
11. Cloc y Dref
    Adnewyddu'n ofynnol
12. Maesyfelin
    Ystad dai a meysydd hamdden
13. Maesyderi
    Ystad dai a meysydd hamdden
14. Pont
    Prif lwybr i'r dref
15. Maes Criced y Brifysgol
    Meysydd hamdden gyda phafiliwn rhestredig Gradd II
16. Sgwâr Harford
    Sgwâr y dref
17. Amgueddfa Llanbedr Pont Steffan
    Addysg
18. Cwmins
    Maes parcio
19. Ysgol Bro Pedr
    Addysg
20. Neuadd yr Esgob Burgess
    Ased hanesyddol i'w warchod
21. Stryd y Farchnad
    Cysylltu'r stryd gefn â'r Stryd Fawr

Safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol

Dyraniadau Tai

A. Hen Ysgol Gynradd Llanbedr Pont Steffan - H0501
B. Safle y tu ôl i Ffynnon Bedr - H0502
C. Safle ar gornel Heol y Goedwig – H0503
D. Heol y Goedwig – H0504
E. Tir ger Maesyderi – H0505

Dyraniadau Cyflogaeth

F. Parc Busnes Llanbedr Pont Steffan – E0501
G. Hen Safle'r Mart – E0502

